


# BETH SY'N ACHOSI DAEARGRYN?

Cyn i wyddonwyr ddarganfod y rheswm dros ddaeargrynfeydd roedd gan bob gwlad ei chwedl ei hun!

1. **India**: Mae'r ddaear yn cael ei dal i fyny gan bedwar eliffant sy'n sefyll ar gefn crwban môr sy'n sefyll ar gobra. Pan fo'r anifeiliaid hyn yn symud mae'r ddaear yn crynu.
2. **Mexico**: Mae'r diafol, El Diablo, yn rhwygo'r ddaear o'r tu mewn. Mae ef a'i ffrindiau drwg yn defnyddio'r craciau pan fydd arnynt eisiau dod i'r ddaear i greu helynt.
3. **Japan**: Mae ynysoedd Japan yn gorwedd ar gath fôr anferth – y namazu. Mae hanner duw yn dal carreg fawr wrth ei ben i'w rwystro rhag symud ond weithiau mae rhywbeth yn dal sylw yr hanner duw ac mae'r namazu yn symud.
4. **Mozambique**: Mae'r ddaear yn rhywbeth byw ac, fel pobl, gall ddal annwyd, crynu a thisian.
5. **Dwyrain Affrica**: Mae'r ddaear yn wastad ac yn cael ei dal i fyny gan fynydd anferth ar un ochr a chawr ar yr ochr arall. Gwraig y cawr sy'n dal yr awyr i fyny. Pan mae ef yn plygu i'w chusanu mae'r ddaear yn crynu.
6. **India**: Mae saith sarff, yn eu tro, yn cynnal y ddaear. Pan fyddant yn newid drosodd bydd y ddaear yn symud.
7. **Sgandinafia**: Mae'r duw Loki yn cael ei gosbi am lofruddio ei frawd. Mae wedi ei glymu wrth graig mewn ogof danddaearol. Uwch ei ben mae sarff sy'n dripian gwenwyn sy'n cael ei ddal mewn powlen gan chwaer Loki. Mae'n rhaid iddi wagio'r bowlen weithiau a bryd hynny bydd Loki yn troi a throsi i osgoi'r gwenwyn a bydd y ddaear yn crynu.
8. **Seland Newydd**: Mae gan y Fam ddaear fabi yn ei chroth a phob tro mae'n cicio mae'n achosi daeargryn.
9. **Canolbarth America**: Mae corneli'r ddaear sgwâr yn cael eu cynnal gan bedwar duw. Pan mae'n mynd yn rhy drwm oherwydd gorboblogi maen nhw'n ei droi drosodd.

Ond beth ddywed gwyddonwyr yr unfed ganrif ar hugain?

Dirgryniad wyneb y ddaear yw **daeargryn**. Achosir daeargrynfeydd yn bennaf oll gan symudiad platiau tectonig, lle mae dau blât mewn gwrthdrawiad neu yn symud i gyfeiriad dirgroes (daeargryn tectoneg). Mae symudiad magma mewn llosgfynydd yn gallu achosi daeargryn hefyd. Weithiau, mae cwymp gwagle tanddaearol yn achosi daeargryn.